Gwasanaeth Tystion

# Pecyn Gwybodaeth Tystion

## Eich canllaw i fod yn dyst yn y llys

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn ar gyfer tystion a fydd yn rhoi tystiolaeth mewn achos llys troseddol yng Nghymru a Lloegr.

Fe'i bwriedir ar gyfer tystion yr erlyniad a'r amddiffyniad a fydd yn mynychu Llys y Goron neu lys ynadon.

**cy.witnessservice.org.uk**

# Cynnwys


Beth yw'r Gwasanaeth Tystion? ... 3
Rôl tyst ... 4
Y gwahaniaeth rhwng tystion yr erlyniad a'r amddiffyniad ... 4
Eich hawliau fel tyst ... 4
Paratoi ar gyfer y llys ... 5
Beth i fynd gyda chi ... 5
Teithio i'r llys ... 6
Pethau eraill i'w hystyried ... 6
Mesurau arbennig ... 7
Yn y llys ... 10
Cyrraedd y llys ... 10
Cefnogaeth y Gwasanaeth Tystion ... 10
Mannau aros ... 10
Cwrdd ag erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron neu gynrychiolydd yr amddiffyniad ... 11
Oedi ... 11
Rhoi tystiolaeth ... 12
Ar ôl i chi roi tystiolaeth ... 14
Rheithfarnau a dedfrydu ... 14
Cyfiawnder adferol ... 15
Cynllun Cyswllt Dioddefwyr ... 15
Hawlio treuliau ... 15
Cefnogaeth ar ôl yr achos llys ... 16

# Beth yw'r Gwasanaeth Tystion?

Mae'r Gwasanaeth Tystion yn helpu pobl i deimlo bod ganddynt wybodaeth, cefnogaeth a'u bod yn fwy hyderus pan fyddant yn rhoi tystiolaeth yn y llys.

Rydym yn darparu cefnogaeth annibynnol am ddim i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad ym mhob llys troseddol yng Nghymru a Lloegr. Rydym hefyd yn cefnogi aelodau teuluoedd a ffrindiau sydd wedi cael profedigaeth, ac aelodau teuluoedd tystion sy'n mynychu'r llys.

Nid yw'r Gwasanaeth Tystion yn cefnogi tystion proffesiynol nac arbenigol.

Rydym yn helpu tystion i ddeall beth i'w ddisgwyl cyn, yn ystod ac ar ôl achos llys, ac yn cynnig cefnogaeth bob cam o'r ffordd. Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr, sydd wedi'u hyfforddi, yma i wrando, ateb cwestiynau a helpu i wneud i broses y llys deimlo'n llai brawychus, fel y gall tystion roi eu tystiolaeth orau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Gwasanaeth Tystion: **cy.witnessservice.org.uk**

Sganiwch y cod QR hwn i weld gwefan y Gwasanaeth Tystion

# Rôl tyst

Mae tyst yn rhywun sydd wedi gweld neu glywed, neu sy'n gwybod rhywbeth pwysig am ddigwyddiad sy'n cael ei ystyried yn y llys. Gallai'r wybodaeth sydd gennych, sef eich tystiolaeth, helpu'r llys i ddeall beth ddigwyddodd ac i ddarganfod y gwir.

Fel tyst, eich gwaith chi yw dweud wrth y llys beth rydych chi'n ei wybod. Bydd cwestiynau'n cael eu gofyn i chi am yr hyn a welsoch neu a glywsoch, neu'r hyn ddigwyddodd i chi.

Nid oes disgwyl i chi wybod popeth neu gofio pob manylyn, dim ond i rannu'r hyn rydych chi'n ei wybod yn onest yn eich geiriau eich hun.

## Y gwahaniaeth rhwng tystion yr erlyniad a'r amddiffyniad

Pan fyddwch chi'n mynd i'r llys fel tyst, byddwch yn cael eich galw i roi tystiolaeth naill ai gan yr **erlyniad** neu'r **amddiffyniad**.

- Mae **tyst sy'n cael ei alw gan yr erlyniad** yn rhoi tystiolaeth i gefnogi'r achos yn erbyn yr unigolyn sydd wedi'i gyhuddo o drosedd – y diffynnydd. Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) sy'n arwain yr erlyniad fel arfer, a'u gwaith nhw yw cyflwyno'r dystiolaeth sy'n dangos yr hyn maen nhw'n credu sydd wedi digwydd. Eu nod ydy profi bod y diffynnydd yn euog.
- Mae **tyst sy'n cael ei alw gan yr amddiffyniad** yn rhoi tystiolaeth sy'n cefnogi'r diffynnydd. Mae tîm yr amddiffyniad yn cynrychioli'r diffynnydd yn y llys ac yn ymateb i achos yr erlyniad i wneud yn siŵr eu bod yn cael treial teg.

Os ydych chi'n dyst i'r erlyniad, cyfreithiwr yr erlyniad fydd yn gofyn cwestiynau i chi yn gyntaf. Ar ôl hynny, bydd cyfreithiwr yr amddiffyniad yn eich holi chi – gelwir hyn yn **groesholi**.

Os ydych chi'n dyst i'r amddiffyniad, byddwch chi'n cael eich holi yn gyntaf gan gyfreithiwr yr amddiffyniad, ac wedyn yn cael eich croesholi gan gyfreithiwr yr erlyniad.

Gelwir unrhyw gwestiynau dilynol y bydd y cyfreithiwr cyntaf i siarad â chi yn eu holi yn **ailholi**.

## Bod yn ddioddefwr *ac* yn dyst

Os byddwch chi'n dioddef yn sgil trosedd a bod yr achos yn mynd i'r llys, byddwch chi'n dal i gael eich ystyried yn ddioddefwr - ond ar y pwynt hwn byddwch chi'n dod yn dyst hefyd. Os mai chi sydd wedi dioddef yn sgil y drosedd, efallai y cewch eich galw fel tyst gan yr erlyniad.

## Eich hawliau fel tyst

Mae'r **Siarter Tystion** yn nodi'r safonau gofal y gallwch ddisgwyl eu derbyn fel tyst mewn achos llys troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n berthnasol i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad, gan gynnwys tystion cymeriad.

Os ydych chi'n dioddef yn sgil trosedd, mae gennych hefyd hawliau fel y'u nodir yn y **Cod Dioddefwyr**.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y ddau ar wefan y Gwasanaeth Tystion: **cy.witnessservice.org.uk/your-rights**.

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ynglŷn â'ch hawliau ar wefan y Gwasanaeth Tystion

# Paratoi ar gyfer y llys

## Ymweliadau cyn achos llys

Gall mynychu'r llys deimlo'n frawychus, yn enwedig os nad ydych chi wedi bod erioed o'r blaen.

Gall y Gwasanaeth Tystion drefnu ymweliad â'r llys cyn diwrnod yr achos llys i'ch helpu i deimlo'n fwy parod a hyderus. Gallwn hefyd drefnu ymweliad rhithwir cyn yr achos, er enghraifft trwy alwad fideo neu alwad ffôn.

Yn ystod ymweliad cyn achos llys, gallwn ni:

- eich cyflwyno i gefnogwyr y Gwasanaeth Tystion
- eich tywys chi o gwmpas ystafell llys, ac esbonio pwy fydd y gwahanol bobl yn yr ystafell a ble byddan nhw
- esbonio beth fydd yn digwydd pan fyddwch chi'n rhoi eich tystiolaeth
- ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych.

Mae teimlo'n nerfus ynglŷn â mynd i'r llys yn beth arferol, ond gall ymweliadau cyn achos llys helpu i dawelu eich meddwl a lleihau pryder ynglŷn â rhoi tystiolaeth.

Sylwer, os ydych chi'n byw yn Llundain neu'n mynd i roi tystiolaeth mewn llys yn Llundain, darperir cymorth cyn achos llys gan y Gwasanaeth Cefnogi Tystion Cyn Achos Llys, sy'n wasanaeth gan Victim Support. Am ragor o wybodaeth, ewch i: **londonvws.org.uk/get-support**.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn ystod ymweliad cyn achos llys ar wefan y Gwasanaeth Tystion: **cy.witnessservice.org.uk/support/going-to-court-as-a-witness/pre-trial-visits**.

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ynglŷn ag ymweliadau cyn achos llys a threfnu ymweliad ar wefan y Gwasanaeth Tystion

Efallai y byddai meddwl am ychydig o bethau ymarferol ymlaen llaw yn helpu i wneud i'ch diwrnod yn y llys fod mor llyfn â phosib.

## Beth i fynd gyda chi

Er y byddwch yn cael amser penodol i fynychu'r llys, mae'n bosib y bydd oedi. Mae'n debygol y bydd rhaid i chi aros am gyfnod cyn i chi gael eich galw i mewn i ystafell y llys i roi eich tystiolaeth.

Gallai fod yn syniad da i chi ddod â:

- y llythyr a gawsoch yn gofyn i chi fynychu'r llys i roi tystiolaeth
- llyfr, darllenydd e-lyfrau, cylchgrawn, ffôn neu ddyfais llechen i'ch cadw'n brysur neu i gadw'ch sylw nes daw'r amser i chi roi eich tystiolaeth
- lluniaeth, neu arian i brynu lluniaeth o'r ffreutur neu beiriant gwerthu os byddant ar gael (nid yw'r rhain ar gael ym mhob llys)
- unrhyw feddyginiaeth sydd ei hangen arnoch, gyda label y fferyllfa yn dangos eich enw a'r dyddiad y cafodd ei rhoi i chi
- ffrind neu aelod o'r teulu i'ch cefnogi.

Byddai'n syniad dod â gwefrydd gyda chi ar gyfer unrhyw ddyfeisiau trydanol, a chlustffonau os ydych chi'n bwriadu gwrando ar gerddoriaeth, llyfr sain neu bodlediad.

Mae yna rai eitemau na chaniateir i chi ddod â nhw i mewn i adeiladau'r llys. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen 10.

### Bod yn gyfforddus

Er nad oes cod gwisg ar gyfer mynychu'r llys, gall fod yn syniad da i chi wisgo haenau, neu fynd â sgarff neu siaced y gallwch eu gwisgo neu eu tynnu os byddwch chi'n mynd yn rhy boeth neu'n rhy oer.

# Paratoi ar gyfer y llys

## Teithio i’r llys

### Y daith

Mae rhoi amser i gynllunio'ch taith ymlaen llaw yn gallu eich helpu i osgoi pryder ychwanegol ar y diwrnod. Pethau y gallech eu hystyried:

- Faint o amser fydd eich taith yn ei gymryd a phryd byddwch chi'n teithio. Er enghraifft, gall gymryd mwy o amser ar adegau teithio brig.
- Os ydych chi am yrru, meddyliwch ble y gallwch chi barcio a sut i dalu am barcio os oes angen. Er enghraifft, a oes angen arian parod neu gerdyn arnoch ar gyfer peiriant tocynnau neu fesurydd, neu a ydych chi'n talu gydag ap?
- Os ydych chi am ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gallech ymgyfarwyddo â'r amserlen bws neu drên, a pha mor aml yw'r gwasanaeth.

Gallwch hawlio treuliau am gostau teithio y byddwch chi’n eu talu er mwyn mynychu'r llys fel tyst. Mae mwy o wybodaeth am hawlio treuliau ar dudalen 15.

Os ydych chi'n dyst i’r erlyniad, gallwch chi drafod eich trefniadau teithio ac unrhyw bryderon gyda'ch swyddog Uned Gofal Tystion. Os ydych chi'n dyst i’r amddiffyniad, gallwch chi drafod hyn gyda'r cyfreithiwr sydd wedi dweud wrthoch chi am fynychu'r llys.

### Pa lys fyddaf yn ei fynychu?

Bydd y llythyr a gawsoch yn gofyn i chi roi tystiolaeth yn y llys yn cynnwys manylion pa lys i'w fynychu. Os nad ydych yn siŵr, gallwch ofyn i'r Uned Gofal Tystion neu'r swyddog yn yr achos os ydych chi'n dyst i’r erlyniad, neu i gyfreithiwr yr amddiffyniad os ydych chi'n dyst i’r amddiffyniad.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y llys, a chyfarwyddiadau ar gyfer cyrraedd yno, ar wefan GOV.UK: **gov.uk/chwilio-am-lys-neu-dribiwnlys**. Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ynglŷn â dod o hyd i lys ar wefan GOV.UK

## Pethau eraill i'w hystyried

### Cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith

Os ydych chi mewn gwaith cyflogedig, rhowch wybod i'ch gweithle cyn gynted â phosib os bydd angen i chi gymryd amser i ffwrdd i fynychu'r llys.

Nid oes rhaid i'ch cyflogwyr eich talu am yr amser hwn i ffwrdd, ond gallwch chi hawlio treuliau am golli enillion. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych chi'n hunangyflogedig. Mae mwy o wybodaeth am hawlio treuliau ar dudalen 15.

Os yw'ch cyflogwr yn gwrthod rhoi amser i ffwrdd i chi gael mynychu'r llys fel tyst, siaradwch â'r Uned Gofal Tystion neu'r swyddog yn yr achos os ydych chi'n dyst i’r erlyniad, neu gyfreithiwr yr amddiffyniad os ydych chi'n dyst i’r amddiffyniad.

Os ydych chi wedi derbyn gwŷs tystio, mae’n rhaid i'ch cyflogwr ganiatáu i chi fynychu'r llys. (Mae gwŷs tystio yn ddogfen gyfreithiol a gyhoeddir gan y llys sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi fynychu'r achos llys a rhoi tystiolaeth.)

### Gofal plant

**Ni fydd gofal plant ar gael yn adeilad y llys tra byddwch yn rhoi tystiolaeth, ac nid yw'r llys yn amgylchedd addas i blant ifanc.**

Os oes gennych blant sy'n iau nag oedran ysgol, bydd angen i chi drefnu gofal plant. Os yw hyn yn anodd neu'n golygu costau ychwanegol, siaradwch â'r Uned Gofal Tystion neu'r swyddog yn yr achos os ydych chi'n dyst i’r erlyniad, neu gyfreithiwr yr amddiffyniad os ydych chi'n dyst i’r amddiffyniad. Efallai y byddwch yn gallu hawlio'r costau hyn yn ôl.

Os oes gennych blant oedran ysgol, gallech ystyried gofyn i ffrind neu aelod o'r teulu eich helpu drwy fynd â nhw i'r ysgol a’u casglu, os yw hyn yn opsiwn i chi. Gall hyn eich helpu i gyrraedd y llys mewn pryd heb deimlo eich bod yn brysio a’ch arbed rhag poeni am eu casglu tra byddwch chi yn y llys.

# Paratoi ar gyfer y llys

Rhowch wybod i'r unigolyn a ddywedodd wrthoch chi am fynychu'r llys (fel swyddog yr Uned Gofal Tystion neu gyfreithiwr yr amddiffyniad) os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â gofal plant.

## Cyllid

Gall mynychu'r llys olygu costau ariannol annisgwyl yn sgil pethau fel teithio, gofal plant, parcio a lluniaeth. Gan ddibynnu beth yw'ch swydd, efallai y bydd angen i chi gymryd diwrnod i ffwrdd o'r gwaith, a allai fod yn ddi-dâl, neu wrthod gwaith os ydych chi'n hunangyflogedig.

Gallwch hawlio treuliau a lwfans ar gyfer mynychu'r llys fel tyst. Mae mwy o wybodaeth am hawlio treuliau ar dudalen 15.

**Gall dyddiadau achosion llys newid, a hynny weithiau ar fyr rybudd**

Nid yw pob achos llys sydd wedi'i amserlennu yn mynd ymlaen fel y bwriad yng Nghymru a Lloegr, oherwydd mae achosion yn aml yn cael eu canslo ar fyr rybudd. Os yw'r achos llys rydych chi'n mynd i'w fynychu yn cael ei ganslo, bydd y rheswm yn cael ei esbonio'n glir i chi.

Os oes angen ystafell llys ar gyfer achos arall neu os nad oes barnwr ar gael, gallai'r achos llys gael ei symud ymlaen i ddyddiad arall. Gelwir hyn yn 'gohirio'r achos'.

Gall fod yn anodd clywed bod yr achos wedi cael ei ohirio – ond gallai gwybod bod hyn yn bosibilrwydd eich helpu i deimlo'n fwy parod wrth i'ch dyddiad yn y llys agosáu.

## Mesurau arbennig

Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth ychwanegol yn y llys i'ch helpu i roi eich tystiolaeth orau.

'Mesurau arbennig' ydy pethau y gall y llys eu darparu neu eu gwneud i dawelu'ch meddwl a gwneud eich profiad o roi tystiolaeth mor gyfforddus â phosib.

Gall tystion sy'n agored i niwed neu sydd dan fygythiad ofyn am fesurau arbennig.

Rydych chi'n dyst sy'n **agored i niwed** os:

- ydych chi'n berson ifanc dan 18 oed
- oes gennych gyflwr corfforol neu feddyliol neu anabledd a allai effeithio ar eich gallu i roi eich tystiolaeth.

Gallech fod yn dyst sydd **dan fygythiad** os ydych chi'n:

- teimlo mor ofnus neu ofidus ynglŷn â rhoi tystiolaeth yn y llys y bydd hynny'n effeithio ar ansawdd eich tystiolaeth
- perthynas sydd wedi cael profedigaeth trwy laddiad (llofruddiaeth neu ddynladdiad)
- dioddefwr sydd wedi goroesi troseddau gan gynnwys:
  - troseddau rhywiol
  - cam-drin domestig
  - troseddau casineb
  - caethwasiaeth fodern
  - terfysgaeth
- dioddefwr neu dyst i drosedd sy'n ymwneud ag arfau fel gynnau neu gyllyll.

Nid yw mesurau arbennig yn cael eu rhoi yn awtomatig i dystion.

- Os ydych chi'n dyst i'r erlyniad, bydd angen i Wasanaeth Erlyn y Goron wneud cais i'r llys i ofyn am y mesurau arbennig a fyddai, yn eich barn chi, yn eich helpu i roi eich tystiolaeth orau.
- Os ydych chi'n dyst i'r amddiffyniad, bydd angen i dîm cyfreithiol yr amddiffyniad wneud cais i'r llys i ofyn am fesurau arbennig.

Bydd y barnwr neu'r ynad yn penderfynu pa fesurau arbennig y gellir eu caniatáu yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y cais.

# Paratoi ar gyfer y llys



I gael rhagor o wybodaeth am fesurau arbennig:

- ewch i weld ein hystafell llys ryngweithiol: **cy.witnessservice.org.uk/support/different-courts**

Sganiwch y cod QR i weld yr ystafell llys ryngweithiol ar wefan y Gwasanaeth Tystion

## Mesurau arbennig sydd ar gael

### Cyfweliad wedi'i recordio ar fideo

Gallai'r heddlu wneud recordiad fideo o'ch disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd, yn hytrach na chymryd datganiad ysgrifenedig. Mae pobl hefyd yn cyfeirio at hyn fel eich cyfweliad 'tystiolaeth flaenaf' neu gyfweliad 'sicrhau'r dystiolaeth orau'. Byddai hwn yn cael ei ddangos ar y sgriniau teledu yn y llys yn ystod yr achos.

### Croesholiad neu ailholiad wedi'i recordio ar fideo

Os ydych chi'n dyst i'r erlyniad, cyfreithiwr yr erlyniad fydd yn gofyn cwestiynau i chi yn gyntaf. Ar ôl hynny, bydd cyfreithiwr yr amddiffyniad yn eich croesholi chi. Os ydych chi'n dyst i'r amddiffyniad, byddwch chi'n cael eich holi yn gyntaf gan gyfreithiwr yr amddiffyniad, ac wedyn yn cael eich croesholi gan gyfreithiwr yr erlyniad. Ailholi yw unrhyw gwestiynau dilynol gan y cyfreithiwr cyntaf.

Gellir recordio hyn ar fideo dan y mesur arbennig hwn, sy'n golygu nad oes rhaid i chi fynychu'r llys ei hun o gwbl os ydych chi wedi cael cyfweliad wedi'i recordio ar fideo hefyd. Mae'r recordiad fideo o'r croesholi yn cael ei ddangos ar y sgriniau teledu yn y llys yn ystod yr achos.

Weithiau gelwir hyn yn wrandawiad 'Adran 28', sef yr adran o'r gyfraith sy'n ymwneud â rhoi tystiolaeth dan y mesur arbennig hwn.

### Defnyddio sgriniau yn y llys

Gellir rhoi sgriniau neu lenni o'ch cwmpas yn y blwch tystio. Ni fydd y diffynnydd yn gallu eich gweld chi, ac ni fyddwch chi'n gallu eu gweld nhw, tra byddwch chi'n rhoi tystiolaeth neu'n cael eich croesholi yn y llys.

### Cyswllt fideo byw

Mae'n bosib y byddwch yn gallu rhoi eich tystiolaeth o ystafell arall yn adeilad y llys, neu ystafell arall yn rhywle arall, yn hytrach na gorfod mynd i mewn i ystafell y llys. Byddwch chi'n eistedd o flaen rhywbeth sy'n edrych fel teledu gyda meicroffon. Mae yna ddyfais recordio fideo (fel gwe-gamera), fel bod modd eich gweld chi'n fyw yn ystafell y llys.

Bydd pob aelod o'r llys yn eich gweld chi'n rhoi tystiolaeth ar y sgriniau teledu yn y llys, ond dim ond y person sy'n siarad â chi y byddwch chi'n eu gweld. Er enghraifft, y barnwr neu gyfreithiwr.

Gall y cyfreithiwr wneud cais i guddio'r monitorau teledu o olwg y diffynnydd i'w hatal rhag eich gweld chi'n rhoi eich tystiolaeth. Gelwir hyn yn gais mesurau arbennig cyfunol, neu 'guddio'r sgrin'.

### Tynnu wigiau a gynau

Gallai'r barnwr a'r cyfreithwyr yn y llys dynnu eu wigiau a'u gynau traddodiadol er mwyn i ystafell y llys deimlo'n llai ffurfiol a brawychus.



# Paratoi ar gyfer y llys




**Rhoi tystiolaeth yn breifat**
Mae llysoedd yn adeiladau cyhoeddus, sy'n golygu y gall aelodau o'r cyhoedd a'r wasg wylio gwrandawiadau llys fel arfer. O dan y mesur arbennig hwn, gellir clirio unrhyw un nad oes angen cyfreithiol iddynt fod yno allan o ystafell y llys er mwyn i chi gael rhoi tystiolaeth yn breifat.

**Defnyddio cyfryngwr**
Rhywun sy’n gallu helpu tyst i gyfathrebu ydy cyfryngwr. Maen nhw’n gallu helpu i esbonio – neu ofyn i'r llys aralleirio – iaith neu gwestiynau nad ydych chi'n eu deall er mwyn eich helpu chi i roi eich tystiolaeth orau.

**Cymhorthion cyfathrebu**
Gall cymhorthion cyfathrebu gynnwys pethau fel byrddau cymorth gweledol, meddalwedd syllu ar y llygaid, doliau neu luniau corff amlinellol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fesurau arbennig gan yr Uned Gofal Tystion neu'r swyddog yn yr achos os ydych chi'n dyst i’r erlyniad, neu gyfreithiwr yr amddiffyniad os ydych chi'n dyst i’r amddiffyniad. Gallwch gael gwybod mwy hefyd ar wefan y Gwasanaeth Tystion: **cy.witnessservice.org.uk/your-rights/special-measures**

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ar fesurau arbennig ar wefan y Gwasanaeth Tystion

Gallwch hefyd wylio canllawiau fideo sy'n esbonio mesurau arbennig ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron: **cps.gov.uk/cy/victims-guide/victims-guide-support-give-your-evidence-special-measures**

Sganiwch y cod QR i weld y canllawiau fideo ar fesurau arbennig ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron

# Yn y llys

## Cyrraedd y llys

### Mynd drwy'r system ddiogelwch

Pan fyddwch chi'n cyrraedd y llys, bydd rhaid i chi fynd trwy wiriad diogelwch tebyg i'r rhai mewn maes awyr. Efallai bod hyn yn swnio'n frawychus, ond mae'n helpu i gadw'r llys yn ddiogel, ac mae pawb sy'n mynd i mewn i'r adeilad yn mynd trwyddo. Os oes angen unrhyw help arnoch chi neu os oes gennych gwestiynau, bydd y swyddog diogelwch yno i'ch helpu.

Efallai y bydd y swyddog diogelwch yn gofyn i chi wagio'ch pocedi a rhoi eich eiddo mewn hambwrdd. Efallai y gofynnir i chi dynnu eich esgidiau, cot, menig, gwregys neu het. Byddant yn gwirio unrhyw fag fydd gyda chi. Mae gan rai llysoedd sganwyr diogelwch pelydr-x, a gellir rhoi eich eiddo trwy'r rhain.

Gofynnir i chi gerdded trwy borth sy'n cynnwys synhwyrydd diogelwch. Gall swyddog diogelwch ddefnyddio sganiwr llaw i gynnal chwiliad pellach ac, os oes angen, gallan nhw chwilio unigolyn â llaw.

Ar ôl iddyn nhw orffen eu gwiriadau, gallwch chi ddweud wrth y swyddog diogelwch eich bod chi'n dyst a gofyn iddyn nhw am y Gwasanaeth Tystion.

Gallwch chi ddod â diodydd di-alcohol gyda chi. Os oes unrhyw ddiodydd ar agor, neu mewn fflasg, potel neu gwpan, bydd y swyddog diogelwch yn gofyn i chi gymryd llymaid i brofi nad yw'r cynnwys yn niweidiol. Gelwir hyn yn 'brawf llymaid'.

Mae yna rai eitemau **na chaniateir** i chi ddod â nhw i'r llys. Er enghraifft, ni allwch ddod ag unrhyw gyllyll nac arfau, unrhyw lafnau nac eitemau miniog eraill, gwydr, offer llaw, alcohol, nac unrhyw hylifau nad ydynt yn ddiodydd neu'n feddyginiaeth presgripsiwn (gan gynnwys persawr). Gellir gweld rhestr lawn ar wefan GOV.UK: **gov.uk/entering-court-or-tribunal-building**

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ar eitemau na chaniateir i chi ddod â nhw i'r llys ar wefan GOV.UK

**Mynedfa wahanol i'r llys**

Os ydych chi'n dyst sy'n agored i niwed neu sy'n cael eich bygwth, gallai fod yn bosib trefnu mynediad i'r llys trwy fynedfa wahanol. Gall y Gwasanaeth Tystion neu swyddog yr Uned Gofal Tystion drefnu hyn ar gyfer tystion cyn iddynt fynychu'r llys.

## Cefnogaeth y Gwasanaeth Tystion

Mae'r Gwasanaeth Tystion ar gael i'ch cefnogi chi ar ddiwrnod yr achos llys.

Bydd un o gefnogwyr y Gwasanaeth Tystion gyda chi mewn man aros diogel, ar wahân i fan aros cyffredinol y llys, cyn i chi roi eich tystiolaeth.

Gallan nhw siarad â chi am broses y llys ac ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych.**Ond ni fyddan nhw'n trafod eich tystiolaeth nac unrhyw fanylion am yr achos llys gyda chi.**

Gall y Gwasanaeth Tystion weithredu fel y cyswllt rhyngoch chi a'r llys neu staff Gwasanaeth Erlyn y Goron i'ch diweddaru.

## Mannau aros

Nes daw'r amser i chi roi tystiolaeth yn y llys, byddwch chi'n gallu aros mewn man aros ar wahân i fan aros cyffredinol y llys. Bydd staff y llys neu swyddog diogelwch yn gallu dweud wrthoch chi ble i fynd.

Weithiau, mae'r man hwn yn cael ei alw'n ystafell tystion neu fan aros i dystion.

Gall fod pobl eraill yn y man aros i dystion sy'n rhoi tystiolaeth yn yr un achos â chi neu mewn achosion eraill yn adeilad y llys.

**Mae'n bwysig iawn peidio â thrafod eich achos gydag unrhyw dystion eraill. Mae hyn yn cynnwys pan fyddwch yn y man aros i dystion, yn ystod egwyl ginio neu doriad, neu os byddwch chi ran o'r ffordd drwy'ch tystiolaeth ac yn cael eich galw'n ôl y diwrnod canlynol.**

# Yn y llys

Lle bo modd, bydd tystion yr erlyniad (ac aelodau teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth) yn cael eistedd ar wahân i dystion yr amddiffyniad. Os oes gennych unrhyw bryderon, gallwch siarad ag un o gefnogwyr y Gwasanaeth Tystion.

### Mynd dros eich datganiad tyst

Tra byddwch chi'n aros, byddwch chi'n gallu darllen eich datganiad tyst. Bwriad hynny ydy eich atgoffa ynglŷn â'r dystiolaeth a roddwyd gennych i'r heddlu neu i dîm cyfreithiol yr amddiffyniad.

Os bydd gennych ddatganiad tyst fideo wedi'i recordio ymlaen llaw a'ch bod heb ei wylio cyn dechrau'r achos llys er mwyn adfywio eich cof, gall y swyddog yn yr achos drefnu i chi ei wylio.

Dylai'r tywysydd fynd â'ch datganiad tyst i ystafell y llys, a gallwch gyfeirio ato gyda chaniatâd y llys.

## Cwrdd ag erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron neu gynrychiolydd yr amddiffyniad

Cyn i chi roi eich tystiolaeth, bydd aelod o'r tîm cyfreithiol yn siarad â chi tra byddwch chi'n aros yn y man aros i dystion.

Byddan nhw'n gwisgo eu dillad llys ac efallai y byddan nhw'n gwisgo wig a gŵn.

- **Os ydych chi'n dyst sy'n cael ei alw gan yr erlyniad**, bydd erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron neu rywun arall o'r tîm erlyn yn siarad â chi am yr achos.
- **Os ydych chi'n dyst sy'n cael ei alw gan yr amddiffyniad**, bydd cyfreithiwr yr amddiffyniad neu rywun o dîm yr amddiffyniad yn dod i siarad â chi.

## Oedi

Er y gall fod amser penodol wedi'i roi i chi i fynychu'r llys ar y llythyr yn eich galw i roi tystiolaeth, weithiau nid yw achosion llys yn dechrau ar amser.

Mae'n debygol y bydd rhaid i chi aros am gyfnod yn y man aros i dystion cyn i chi gael eich galw i roi eich tystiolaeth. Mewn rhai achosion, gall fod rhaid i dystion ddod yn ôl ar ddiwrnod gwahanol.

Bydd un o gefnogwyr y Gwasanaeth Tystion yn eich diweddaru ynglŷn ag unrhyw oedi tra byddwch chi'n aros yn y llys i roi tystiolaeth.

Gallai fod yn syniad da i chi ddod â rhywbeth gyda chi i ladd amser, fel llyfr neu ddarllenydd e-lyfrau, cylchgrawn, ffôn neu ddyfais llechen. (Byddai'n syniad dod â gwefrydd gyda chi ar gyfer unrhyw ddyfeisiau, a chlustffonau os ydych chi'n bwriadu gwrando ar unrhyw sain.)

Mae yna adnoddau pellach i'ch helpu i deimlo'n fwy cyfforddus ynglŷn â mynd i'r llys ar wefan y Gwasanaeth Tystion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ystafell llys ryngweithiol: **cy.witnessservice.org.uk/support/different-courts**

Sganiwch y cod QR i weld yr ystafell llys ryngweithiol ar wefan y Gwasanaeth Tystion

# Rhoi tystiolaeth





Pan fydd hi'n amser i chi roi eich tystiolaeth, bydd un o dywyswyr y llys yn eich casglu o'r man aros i dystion a bydd yn eich hebrwng i ystafell y llys.

> Gall fod modd i'r cefnogwr o'r Gwasanaeth Tystion fod gyda chi wrth i chi roi tystiolaeth.

Unwaith y byddwch yn ystafell y llys, byddan nhw'n dweud wrthoch chi ble i sefyll. Caiff y man hwn ei alw'n flwch tystio.

Yna bydd y tywyswr yn derbyn eich llw neu'ch cadarnhad. Gelwir y broses hon yn 'tyngu llw' a dyma pryd byddwch chi'n addo dweud y gwir wrth roi tystiolaeth yn yr achos. Gallwch naill ai dyngu'r llw ar lyfr sanctaidd eich crefydd, neu gallwch wneud cadarnhad anghrefyddol.

Ar ôl i chi dyngu llw, bydd y cyfreithiwr yn dechrau gofyn cwestiynau i chi yn seiliedig ar eich datganiad i'ch helpu i adrodd eich fersiwn chi o'r hyn ddigwyddodd. Os ydych chi'n dyst i'r erlyniad, bydd erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron (cyfreithiwr yr erlyniad) yn gofyn cwestiynau i chi, neu os ydych chi'n dyst i'r amddiffyniad, bydd cyfreithiwr yr amddiffyniad yn gofyn cwestiynau i chi.

(Os ydych eisoes wedi rhoi eich tystiolaeth fel cyfweliad fideo wedi'i recordio ymlaen llaw, bydd hwnnw'n cael ei ddangos ar y sgriniau teledu yn y llys, felly ni fydd angen i chi roi eich tystiolaeth yn bersonol.)

> Ni fydd yr ynadon, na'r barnwr na'r rheithgor, wedi gweld na darllen eich datganiad.

Unwaith y bydd y cyfreithiwr a'ch galwodd i roi tystiolaeth wedi gorffen gofyn eu cwestiynau, bydd y cyfreithiwr arall yn gofyn cwestiynau wedyn. Gelwir hyn yn groesholi.

Gall y cwestiynau hyn fod yn fwy heriol, gan fod yr ochr wrthwynebol eisiau profi hygrededd eich tystiolaeth neu dynnu sylw at unrhyw anghysondebau.

> Gallwch ofyn i'r barnwr neu'r ynadon am egwyl neu doriad i fynd i'r toiled os oes angen un arnoch yn ystod yr holi. Gallwch hefyd ofyn i'r cyfreithwyr ailadrodd cwestiwn, neu ei ddweud mewn ffordd wahanol, os nad ydych chi'n deall rhywbeth sydd wedi'i ofyn i chi. Os nad ydych chi'n gwybod yr ateb i gwestiwn, gallwch ddweud hynny: ni ddylech chi ddyfalu neu greu ateb os nad ydych chi'n siŵr.

### Beth dylwn i alw'r barnwr?

Yn ystod achos llys, efallai na fydd angen i chi siarad yn uniongyrchol â'r barnwr. Os bydd angen i chi wneud hynny, byddan nhw'n deall nad ydych chi'n arbenigwr cyfreithiol ac y gallech chi fod yn nerfus, felly peidiwch â phoeni ynglŷn a'u cyfarch yn y modd anghywir.

Os na fyddwch chi'n siŵr beth i'w galw, gallwch chi ddefnyddio 'Barnwr'. Er enghraifft, "Ie, Farnwr." Neu gallwch ofyn i'r cefnogwr o'r Gwasanaeth Tystion, neu erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron neu gyfreithiwr yr amddiffyniad, cyn i chi roi tystiolaeth.

### Rwy'n poeni am weld y diffynnydd

Os ydych chi'n dyst sydd wedi'i alw gan yr erlyniad, efallai y byddwch chi'n nerfus neu'n bryderus ynglŷn â gweld y diffynnydd. Gallai mesurau arbennig helpu gyda hyn, fel a nodwyd ar dudalen wyth (er enghraifft, sgrinio'r blwch tystio fel nad oes rhaid i chi weld y diffynnydd wrth i chi roi eich tystiolaeth). Siaradwch â'ch swyddog Uned Gofal Tystion neu'r swyddog yn yr achos i gael rhagor o wybodaeth.

> Gallai'r diffynnydd bledio'n euog ychydig cyn neu hyd yn oed ar ddiwrnod yr achos llys. Os bydd hyn yn digwydd, ni fydd yr achos yn mynd yn ei flaen, ac ni fydd rhaid i chi roi tystiolaeth – hyd yn oed os byddwch chi wedi dod i'r llys ar y diwrnod.
>
> Os bydd hyn yn digwydd, gallech chi deimlo'n hynod siomedig ar ôl mynychu'r llys a pharatoi eich hun i roi tystiolaeth. Os bydd angen cymorth arnoch chi, gallwch chi siarad ag un o gefnogwyr y Gwasanaeth Tystion.

# Rhoi tystiolaeth

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth ar ôl bod yn y llys ar wefan y Gwasanaeth Tystion:
**cy.witnessservice.org.uk/support/after-court**

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen am gymorth ar ôl bod yn y llys ar wefan y Gwasanaeth Tystion

## Datganiad Personol Dioddefwr

Mae gan bobl sydd wedi dioddef yn sgil trosedd, ac aelodau teulu agos dioddefwr a fu farw oherwydd trosedd, hawl i wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Mae hwn yn gyfle i esbonio yn eich geiriau eich hun sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi a'ch teulu.

Bydd y llys yn ystyried eich Datganiad Personol Dioddefwr os bydd y diffynnydd yn cael ei ganfod yn euog, neu'n pledio'n euog. Gallwch chi wneud Datganiad Personol Dioddefwr ar yr un pryd ag y byddwch chi'n rhoi eich datganiad tyst neu unrhyw bryd cyn y dedfrydu.

Gallwch gael gwybod mwy am wneud Datganiad Personol Dioddefwr ar wefan y Gwasanaeth Tystion: **cy.witnessservice.org.uk/your-rights/victim-personal-statement**

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ar Ddatganiadau Personol Dioddefwyr ar wefan y Gwasanaeth Tystion

# Ar ôl i chi roi tystiolaeth




Ar ôl i chi roi eich tystiolaeth a chael eich rhyddhau gan y barnwr neu'r ynadon, mae eich rôl fel tyst wedi dod i ben ac rydych chi'n rhydd i adael y llys.

Gallwch chi:

- Ddychwelyd i'r man aros i dystion i siarad â chefnogwr o'r Gwasanaeth Tystion os bydd angen i chi siarad am yr hyn rydych chi newydd fod trwyddo neu os bydd angen cefnogaeth arnoch chi.
- Gadael adeilad y llys a mynd adref. Gall rhoi tystiolaeth fynd â llawer o egni ac ymdrech ac efallai y byddwch chi'n teimlo'n flinedig wedyn. Gallwch chi siarad â'r cefnogwr o'r Gwasanaeth Tystion os byddwch chi'n teimlo bod angen cymorth arnoch chi.
- Gwylio gweddill yr achos llys o'r oriel gyhoeddus. Rhaid i chi fod o leiaf 14 oed i eistedd yn yr oriel gyhoeddus, er bod cario babanod yn eich breichiau yn cael ei ganiatáu. Sylwer, gallai teulu a ffrindiau'r diffynnydd fod yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus.

Mae'n bwysig peidio â siarad ag unrhyw dystion eraill sy'n ymwneud â'r achos am unrhyw beth wnaethoch chi ei ddweud neu ei glywed yn y llys, neu yn yr oriel gyhoeddus os byddwch chi'n dewis gwylio tystiolaeth bellach yn cael ei rhoi. Mae hyn hefyd yn golygu peidio â phostio am yr achos ar gyfryngau cymdeithasol.

## Rheithfarnau a dedfrydu

Mae llawer o dystion yn dewis gadael adeilad y llys ar ôl iddynt roi eu tystiolaeth ac felly nid ydynt yn clywed canlyniad yr achos ar unwaith.

Os byddwch chi'n gadael y llys heb wybod y rheithfarn, fel arfer bydd y swyddog yn yr achos neu'ch swyddog Uned Gofal Tystion yn rhoi gwybod i chi os ydych chi'n dyst i'r erlyniad. Os ydych chi'n dyst i'r amddiffyniad, gallwch chi ofyn i gyfreithiwr yr amddiffyniad am y canlyniad.

Bydd y diffynnydd naill ai wedi cael ei ganfod yn euog neu'n ddieuog, neu efallai y bydd rheithgor crog.

**Rheithgor crog:** gall hyn ddigwydd mewn achos yn Llys y Goron pan na fydd y rheithgor yn gallu dod i ddyfarniad - naill ai'n unfrydol (pob un o'r 12 rheithiwr yn cytuno) neu drwy fwyafrif (o leiaf 10 rheithiwr yn cytuno). Os na fyddan nhw'n gallu cytuno, bydd y barnwr yn rhyddhau'r rheithgor. Bydd yr achos llys yn dod i ben heb i'r diffynnydd gael ei ganfod yn euog neu'n ddieuog. Ar ôl hynny, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu a ddylid cynnal ail achos.

**Rheithfarn ddieuog:** pan fydd rheithfarn ddieuog, ni fydd y diffynnydd yn cael dedfryd a bydd yn rhydd i fynd. Mae'r broses cyfiawnder troseddol bellach wedi'i chwblhau yng ngolwg y gyfraith.

**Rheithfarn euog:** pan fydd rheithfarn euog wedi'i rhoi, bydd y troseddwr yn cael eu dedfrydu. Weithiau bydd hyn yn digwydd ar unwaith, ond yn aml mae gwrandawiad dedfrydu yn cael ei osod ar gyfer rhai dyddiau, wythnosau neu hyd yn oed fisoedd yn ddiweddarach. Mae hyn yn caniatáu i'r barnwr neu'r ynad gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i roi dedfryd briodol i'r troseddwr, gan gynnwys adroddiadau profiannaeth.

Nid oes angen i chi fynychu'r gwrandawiad dedfrydu oni bai eich bod yn dymuno gwneud hynny. Gall y Gwasanaeth Tystion eich cefnogi yn y gwrandawiad dedfrydu os ydych chi'n bwriadu mynychu.

### Cynllun Dedfrydau Gordrugarog

Mae'r cynllun Dedfrydau Gordrugarog yn caniatáu i unrhyw un ofyn i ddedfrydau Llys y Goron mewn mathau penodol o achosion gael eu hadolygu gan Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol os ydynt yn credu bod y ddedfryd yn rhy drugarog.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, a'r mathau penodol o achosion y gellir eu hadolygu, ar wefan GOV.UK: **gov.uk/ask-crown-court-sentence-review**.

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ar y Cynllun Dedfrydau Gordrugarog ar wefan GOV.UK

# Ar ôl i chi roi tystiolaeth

## Cyfiawnder adferol

Mae cyfiawnder adferol yn dod â'r rhai sydd wedi eu niweidio gan drosedd a'r rhai sy'n gyfrifol am y niwed ynghyd. Mae'n rhoi cyfle i bobl sydd wedi cael eu niweidio ddweud eu dweud a cheisio atebion i'w cwestiynau er mwyn prosesu eu profiad.

Mae cyfiawnder adferol yn broses wirfoddol sydd angen caniatâd gan y ddau barti er mwyn ei chynnal.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfiawnder adferol, gallwch siarad â swyddog yr Uned Gofal Tystion neu fynd i wefan y Gwasanaeth Tystion i gael rhagor o wybodaeth: **cy.witnessservice.org.uk/support/after-court/restorative-justice**.

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ar gyfiawnder adferol ar wefan y Gwasanaeth Tystion

## Cynllun Cyswllt Dioddefwyr

Os byddwch chi wedi cael profedigaeth drwy laddiad neu wedi profi trosedd rywiol neu dreisgar, a bod y troseddwr yn cael ei ddedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar, byddwch chi'n gallu ymuno â'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr.

Os byddwch chi'n ymuno â'r cynllun, gall swyddog cyswllt dioddefwyr roi gwybodaeth i chi am ddedfryd y troseddwr, unrhyw ddatblygiadau yn ystod y ddedfryd, os ydyn nhw'n cael eu hystyried ar gyfer parôl, a phryd y byddan nhw'n cael eu rhyddhau.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr ar wefan y Gwasanaeth Tystion: **cy.witnessservice.org.uk/support/after-court/victim-contact-scheme**

Sganiwch y cod QR isod i weld y dudalen ar y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr ar wefan y Gwasanaeth Tystion

## Hawlio treuliau

Gallwch chi hawlio treuliau am gostau y byddwch wedi'u talu oherwydd eich bod yn dyst mewn achos llys. Gall y costau hyn gynnwys teithio, bwyd, colli enillion a gofal plant. Mae yna symiau penodol y gallwch eu hawlio.

Os ydych chi'n dyst i'r erlyniad, Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gyfrifol am dalu'r treuliau hyn ac maen nhw'n anelu at dalu hawliadau dilys o fewn 10 diwrnod gwaith.

Gallwch chi hawlio treuliau ar-lein yn **claim-witness-expenses.cps.gov.uk**.

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ar hawlio treuliau ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron

Os ydych chi'n dyst i'r amddiffyniad, gallwch chi gasglu ffurflen hawlio (a'i chyflwyno'n ôl ar ôl ei chwblhau) wrth ddesg wasanaeth y llys. Gallwch chi siarad â chyfreithiwr yr amddiffyniad os bydd gennych unrhyw gwestiynau am hawlio treuliau.

Cadwch eich holl dderbynebau ar gyfer y treuliau rydych chi'n eu hawlio, gan y bydd angen i chi atodi'r rhain i'ch ffurflen hawlio neu eu llwytho ar-lein os byddwch chi'n cwblhau'r hawliad ar-lein.

## Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol

Bwriad y cynllun hwn yw digolledu dioddefwyr troseddau treisgar ym Mhrydain Fawr. Mae'n cael ei redeg gan asiantaeth llywodraeth o'r enw'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA).

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y cynllun a gweld a allech chi fod yn gymwys i wneud cais ar wefan GOV.UK: **gov.uk/claim-compensation-criminal-injury**.

Sganiwch y cod QR i weld y dudalen ar y Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol ar wefan GOV.UK

# Cefnogaeth ar ôl yr achos llys

Gall canfod eich ffordd drwy'r system cyfiawnder troseddol a rhoi tystiolaeth yn y llys fod yn ddryslyd a pheri straen. Ond mae cefnogaeth ar gael i chi ym mhob cam o'r broses.

Os oes angen cefnogaeth bellach arnoch chi ar ôl i chi orffen rhoi tystiolaeth fel tyst, siaradwch â ni yn y Gwasanaeth Tystion. Gallwn eich cyfeirio at wasanaethau cymorth neu sefydliadau addas i ddiwallu eich anghenion unigol.

Mae gennym hefyd ragor o wybodaeth ar wefan y Gwasanaeth Tystion, gan gynnwys atebion i gwestiynau cyffredin ac adnoddau rhyngweithiol i'ch helpu i ddeall proses y llys: **cy.witnessservice.org.uk/support/going-to-court-as-a-witness/going-to-court-faqs**

Sganiwch y cod QR i weld y cwestiynau cyffredin am fynd i'r llys ar wefan y Gwasanaeth Tystion

Os ydych chi wedi dioddef yn sgil trosedd a bod angen cymorth ychwanegol arnoch chi, mae Victim Support yn gallu helpu. Gallan nhw ddarparu cymorth personol i'ch helpu chi i ymdopi a theimlo'n fwy diogel ar ôl i drosedd ddigwydd. Gallan nhw esbonio eich hawliau hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch ffonio'r Llinell Gymorth 24-awr ar **08 08 16 89 111** neu fynd i wefan Victim Support: **victimsupport.org.uk**.

Sganiwch y cod QR i weld gwefan Victim Support

Mae gan Victim Support hefyd adnodd ar-lein ar gyfer dioddefwyr a thystion o'r enw My Support Space. Mae wedi'i gynllunio i'ch helpu i ymdopi ag effaith troseddau, teimlo bod gennych fwy o wybodaeth a myfyrio ynglŷn â'ch teimladau. Mae hefyd yn darparu cynghorion ar gyfer cefnogi eich hun yn ystod cyfnod anodd: **mysupportspace.org.uk**.

Sganiwch y cod QR isod i weld gwefan My Support Space

# Eich nodiadau

# Eich nodiadau

# Gwasanaeth Tystion

## Y Gwasanaeth Tystion

Mae'r Gwasanaeth Tystion yn helpu pobl i deimlo bod ganddynt **wybodaeth**, **cefnogaeth** a'u bod yn **fwy hyderus** pan fyddant yn rhoi tystiolaeth yn y llys.

Rydym yn darparu cymorth **annibynnol am ddim** i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad ym mhob llys troseddol yng Nghymru a Lloegr.

Rydym hefyd yn cefnogi aelodau teuluoedd a ffrindiau sydd wedi cael profedigaeth, ac aelodau teuluoedd tystion sy'n mynychu'r llys.

Nid yw'r Gwasanaeth Tystion yn cefnogi tystion proffesiynol nac arbenigol.

### I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- ffonio'r Ganolfan Atgyfeirio a Gwybodaeth:
  0300 330 1180 (Cymraeg)
  0300 332 1000 (Saesneg)
- defnyddio BSL: 020 3830 2112 (Dargyfeiriad Newydd) neu 0300 330 2123
- Ar-lein: **cy.witnessservice.org.uk**

I ddarganfod sut y gallwch wirfoddoli gyda'r Gwasanaeth Tystion, ewch i **cy.witnessservice.org.uk/about/volunteer**

Caiff y Gwasanaeth Tystion ei ddarparu i chi gan Victim Support.

**VictimSupport**
**victimsupport_uk**
**Linkedin.com/company/victim-support**

Cyhoeddwyd gan Victim Support
Llywydd EHB Y Dywysoges Frenhinol

Victim Support, Adeilad 3, Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Pentref Llaneirwg, Caerdydd CF3 5EA
Ffôn: 020 7268 0200

Cofrestriad elusen: 298028 Rhif cwmni: 2158780
Cofrestrwyd yn Lloegr. Cyfyngedig drwy warant.
Swyddfa gofrestredig fel uchod.

**cy.witnessservice.org.uk**

Ebrill 2026 | P3075 Lluniau: © Getty Images © 2026 Victim Support Dylunio gan Kajal Cook